**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-02-02(p.1)**

**Dyddiad:** Dydd Iau 17 Ionawr 2002
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Teitl:** Mesur Diwygio'r NHS a Phroffesiynau Gofal Iechyd

**Pwrpas**

1. Cyhoeddwyd dau Fesur iechyd yn Araith y Frenhines ar 20 Mehefin 2001. Trafododd Aelodau ddeddfwriaeth iechyd yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 5 Rhagfyr 2001 gyda Mr Don Touhig, Is-Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn y Senedd, ac mae'r papur hwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf ar Fesur Diwygio'r NHS a Phroffesiynau Gofal Iechyd.

**Amseru**

2. Dechreuodd Cam Pwyllgor Ty'r Cyffredin ddydd Mawrth 27 Tachwedd gan ddod i ben ar 13 Rhagfyr 2001. Mae'r Adroddiad a'r Trydydd Darlleniad yn debygol o ddilyn ym mis Ionawr 2002.

**Y Diweddaraf**

3. Daeth Cam Pwyllgor Ty'r Cyffredin i ben ddydd Iau 13 Rhagfyr 2001. Pleidleisiwyd y dylai pob cymal o'r Mesur fod yn rhan o'r Mesur, rhai fel y'u diwygiwyd. Gellir gweld adroddiad o'r trafodion a manylion y diwygiadau ar y Rhyngrwyd yn y cyfeiriad isod:

http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200102/cmstand/a/cmnhs.htm

4. Gellir gweld copi o'r Mesur fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor yn Nhy'r Cyffredin

ar 13 Rhagfyr 2001 ar y Rhyngrwyd yn y cyfeiriad isod:

http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200102/cmbills/071/2002071.htm

5. Mae Camau Adroddiad a Thrydydd Darlleniad Ty'r Cyffredin yn debygol o ddigwydd ym mis Ionawr 2002, cyn i'r Mesur gael ei basio drwy Dy'r Arglwyddi.

**Cydymffurfio**

6. Rheolau sefydlog – bydd Aelodau'r Cynulliad yn ymwybodol o'r Rheolau Sefydlog sy'n

berthnasol i is-ddeddfwriaeth a chânt fod yn rhan o'r broses unwaith y bydd y Mesur wedi cael Cydsyniad Brenhinol.

7. Nod y cyflwyniad hwn yw rhoi newyddion rheolaidd i aelodau ar gynnydd Mesur Diwygio'r NHS a Phroffesiynau Gofal Iechyd, ac fel y cyfryw, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol.

**Camau i'r pwyllgor eu cymryd**

8. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys y papur hwn.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Cyswllt:**

Yr enw cyswllt yn y mater hwn yw Ms R Treharne, Tîm Mesurau'r NHS (Cymru), Is-adran Cyllid yr NHS